Y Blynyddoedd Cynnar

Sgil Cyffredin: Dylid annog disgyblion i drafod TGCh yn y byd ehangach a defnyddio TGCh yn briodol wrth chwarae

Creu a Chyflwyno Gwybodaeth a Syniadau	Canfod a Datblygu Gwybodaeth a Syniadau	Generig
Siarad am TGCh yn y byd ehangach a defnyddio offer chwarae TGCh yn briodol mewn sefyllfaoedd chwarae rôl	Defnyddio rhaglen efelychu i gwblhau tasgau syml	Enwi gwahanol rannau y cyfrifiadur a'r perifferolion
Ymateb ar lafar i amrywiaeth o ysgogiadau gan gynnwys testunau cyfryngol a TGCh	Defnyddio llygoden neu fwrdd gwyn rhyngweithiol i symud gwrthrychau ar y sgrîn at ddiben penodol	Datblygu sgiliau motor manwl drwy ddefnyddio'r llygoden
Gwybod y gellir defnyddio TGCh i gyflwyno geiriau, testun, lluniau a rhifau	Defnyddio TGCh i drefnu gwrthrychau mewn dilyniant ar sgrîn.	Dangos diddordeb mewn TGCh
Symud geiriau, rhifau, llythrennau neu luniau ar sgrîn fel rhan o dasg benodol.	Gwybod bod CD ROMs a'r rhyngrwyd yn ffynonellau gweithgareddau a gwybodaeth	Dangos dyfalbarhad i gwblhau tasgau ar y cyfrifiadur
Defnyddio Pecyn Paent ar gyfer Gwneud Marciau	Defnyddio rhaglen creu graffiau/pictogramau i ddatblygu sgiliau cyfrif a rhifedd	Rhannu offer a chymryd tro
Cynhyrchu darn ysgrifenedig sy'n datblygu	Trafod sut mae offer TGCh yn rhoi gwybodaeth i ni mewn sefyllfaoedd "bob dydd"	
Adnabod llythrennau neu rifau unigol ar fysellfwrdd	Deall y gellir rheoli peiriannau	
Dechrau deall bod bysellau arbennig ar fysellfwrdd cyfrifiadur, er enghraifft y bylchwr yn peri i rywbeth ddigwydd	Gwybod y gellir rheoli tegan robotig	
Dechrau deall y gellir argraffu testun a delweddau ar gyfrifiadur	Cyfarwyddo tegan robotig i gwblhau tasg syml	
Dechrau defnyddio camera digidol i dynnu lluniau		
Creu llun syml, gan newid maint y brwsh a'r lliw		
Dechrau defnyddio offer syml i recordio a chwarae seiniau		
Defnyddio dilyniant o luniau i greu cyfansoddiad cerddorol syml		